**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Melvyn Mile a Pete Prendergast |
| **2** | DATGANIADAU O GYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.* |
| **5** | NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI | ***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau yn –*<br><br>*(a) awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ynghylch cynnig 2 ym mharagraff 4.2 yr adroddiad, ynghyd â'r ychwanegiad ym mharagraff 4.3 yr adroddiad;*<br><br>*(b) rhoi cyfarwyddyd i swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu rhag ofn y derbynnir unrhyw wrthwynebiad i'r ymgynghoriad;*<br><br>*(c) rhoi cyfarwyddyd i swyddogion gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad i'r ymgynghoriad, a rhoi'r ffioedd ar waith ar ôl y cyfnod statudol os na dderbynnir rhagor o wrthwynebiad wedi hynny, a*<br><br>*(ch) rhoi cyfarwyddyd i swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu os derbynnir unrhyw wrthwynebiad ar ôl yr hysbysiad statudol.* |
| **6** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022 | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid –*<br><br>*(a) nodi cynnwys yr adroddiad, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) chymeradwyo fersiwn ddiwygiedig y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2022 fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad.* |
| **7** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 557452 | ***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar sicrhau bod pob gwiriad angenrheidiol arall sy'n gysylltiedig â chais gyrrwr trwyddedig yn foddhaol, y dylid caniatáu'r cais am drwydded yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 557452.* |
| **8** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 554278 | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid gohirio ystyried y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278 tan y cyfarfod nesaf a drefnir gan y Pwyllgor Trwyddedu.* |